**COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU**

# *ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL CRYNO 2012/2013*

**COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/2013**

***Rhagair***

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gwaith y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i ychwanegu at waith rhagorol y Comisiynwyr Dros Dro wrth fodloni'r argymhellion a gododd yn sgil Adolygiad Mathias.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithredu ac i'r ffyrdd yr ydym yn rhyngweithio â'n rhanddeiliaid. Ym mis Ebrill 2012, rhoddwyd ein gwefan newydd ar waith. Mae'r wefan sydd wedi'i hailgynllunio yn gwella'r profiad i'r defnyddiwr ac yn haws i ni ei chynnal a'i diweddaru. Nodwyd diffygion gennym yn ein llety a oedd yn effeithio ar ein gweithrediad, ac ar ddiwedd mis Ionawr 2013 gwnaethom symud i Dŷ Hastings. Mae'r llety newydd yn darparu gwell gwerth am arian i ni ac mae ei gynllun a'i gyfleusterau wedi rhoi'r cyfle i ni wneud gwelliannau i'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Rydym wedi bod yn edrych yn ofalus ar gynnydd Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) gan y bydd yn cael effaith sylweddol ar y ffordd yr ydym yn gweithio. Rydym wedi cyfrannu at hynt y Bil trwy wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ac roeddem yn falch o weld bod nifer o'n sylwadau wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor. Gan na ddisgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol tan ddiwedd yr haf, ni allwn gadarnhau ein cynlluniau ar gyfer ail hanner 2013/14 ar yr adeg hon. Fodd bynnag, rydym wedi nodi'r darpariaethau yn y Bil y mae'n ymddangos bod cytundeb yn eu cylch ac wedi cynhyrchu rhaglen waith arfaethedig yn seiliedig ar y tybiaethau hyn.

**Owen Watkin OBE**
**Cadeirydd**
**Gorffennaf 2013**

**CYNNWYS**


**1. CYFLWYNIAD ..... 1**

- Y Comisiwn ..... 1
- Aelodaeth ..... 1
- Yr Ysgrifenyddiaeth ..... 2
- Dyletswyddau Statudol ..... 2
- Gweithdrefn Arolygon ..... 3

**2. AMCANION ..... 4**

- Targedau ..... 4

**3. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2012-13 ..... 5**

- Cyfarfodydd ..... 5
- Arolygon o Brif Ardaloedd ..... 5
- Arolygon Cymunedol ..... 5
- Arolygon o Drefniadau Etholiadol ..... 5
- Gweithdrefnau'r Arolwg Etholiadol ..... 5
- Llywodraethu Corfforaethol ..... 6
- Deddfwriaeth Newydd ..... 7

**4. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC YMARFER ..... 8**

- Dogfen Fframwaith ..... 8
- Cyllideb ac Archwiliad ..... 8
- Cynllun Iaith Gymraeg ..... 8
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth ..... 9
- Gweithdrefn Gwyno ..... 9
- Polisi Cyflogeion ..... 10

**5. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2013-14 ..... 11**

- Arolygon o Drefniadau Etholiadol ..... 11
- Arolygon Cymunedol ..... 11
- Polisi Arolygon Etholiadol ..... 11
- Llywodraethu Corfforaethol ..... 11
- Deddfwriaeth ..... 12
- Cyfathrebu ..... 12

**6. DATGANIAD ARIANNOL CRYNO ..... 13**

# 1. CYFLWYNIAD

## Y Comisiwn

1.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) ym mis Mehefin 1974 o dan delerau Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972). Dynodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Adrannau 54 i 78 Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994). Mae Atodlen 8 Deddf 1972 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad a threfniadau'r Comisiwn. O 1 Ebrill 1995, daeth y Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol cynghorol a gyllidwyd trwy gymorth grant gan y gyn Swyddfa Gymreig ac, erbyn hyn, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydyw.

1.2 Diben y Comisiwn yw:

**Cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Lywodraeth Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.**

## Aelodaeth

1.3 Gan fod cyfnodau’r Comisiynwyr Dros Dro yn eu swydd wedi dod i ben, penododd y Gweinidog Mr Ceri Stradling a Mr David Powell yn Gomisiynwyr ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 tan 31 Mawrth 2015, a phenodwyd Mr Owen Watkin yn Gadeirydd y Comisiwn ar gyfer y cyfnod 15 Mehefin 2012 tan 14 Mehefin 2015 (arhosodd y Cadeirydd Dros Dro, Mr Max Caller, yn ei swydd tan i Mr Watkin gael ei benodi).

Cadeirir Pwyllgor Archwilio’r Comisiwn gan Mr Stradling.

Roedd y Comisiynwyr yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill.

Roedd Mr Watkin yn aelod o Bwyllgor Archwilio Prifysgol Aberystwyth, aelod o Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, aelod o Gymdeithas y Cerddwyr, aelod o Bwyllgor Cerddwyr Aberystwyth, aelod ac ymddiriedolwr o Gymdeithas Mynyddoedd Cambria, aelod o Is-bwyllgor Dynodi’r Gymdeithas, aelod o Dreftadaeth Llandre, cynghorydd anrhydeddus Cronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion ac aelod o’r Sefydliad Materion Cymreig. Mae’n rhaid bod gan y Comisiwn un aelod sy’n siarad Cymraeg, ac roedd Mr Watkin yn cyflawni’r gofyniad hwn.

Roedd Mr Stradling yn gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, aelod o Banel Cynghori Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, aelod o Gyngor Cynulleidfa Cymru y BBC, Cymrawd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, aelod o’r gyfadran Rheolaeth Ariannol, aelod o Gymdeithas Cyfrifwyr Siartredig Caer a Gogledd Cymru ac aelod o’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Nid yw Mr Powell yn aelod o gyrff cyhoeddus eraill.

Yn dilyn proses ddethol, penodwyd Mrs Julie James yn Aelod Annibynnol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y cyfnod 1 Medi 2012 tan 31 Hydref 2015. Roedd Mrs James hefyd yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cadeirydd Parc Cenedlaethol Cymru, Aseswr Iechyd ar gyfer Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru, aelod o Banel Camymddwyn Heddlu Dyfed Powys, aelod o Fwrdd Cynghori Gofal Canser Marie Curie, Cyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru ac un o Ymddiriedolwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Archwilydd statudol y Comisiwn yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi is-gontractio'r swyddogaeth hon i Grant Thornton.

Mae contractau'n bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol, cyfreithiol, cyfrifyddiaeth, cyfieithu ac argraffu.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

1.4 Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn wedi'i lleoli yn Nhŷ Hastings, Llys Ffitsalan, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn cynnwys y swyddi canlynol: Ysgrifennydd, Dirprwy Ysgrifennydd, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Swyddfa, pum Swyddog Arolygon (yr oedd un ohonynt yn gweithredu fel Rheolwr Arolygon ar gyfer yr arolwg Seneddol), dau Swyddog Cymorth Tîm a Chynorthwy-ydd Personol. Roedd y Dirprwy Ysgrifennydd, Mr Steve Halsall, wedi'i benodi gan y Gweinidog yn Ysgrifennydd Gweithredol ac yn ystod cyfnod ei benodiad ni lenwyd swydd y Dirprwy Ysgrifennydd. Daeth penodiad Mr Halsall fel Ysgrifennydd Gweithredol i ben ym mis Medi 2012 yn sgil penodi Mr Ian Williams yn Ysgrifennydd. Yn ystod y flwyddyn, bu amryw o newidiadau eraill i'r staff ac, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 9 aelod o staff mewn swyddi (penodwyd rheolwr Arolygon yn lle Rheolwr Swyddfa, ystyriwyd bod y swydd Cynorthwy-ydd Personol yn ddiangen ac mae swydd Swyddog Arolygon heb ei lenwi ar hyn o bryd).

1.5 Yn dilyn penodi Mr Williams yn Ysgrifennydd, trosglwyddwyd penodiad Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn o Mrs June Milligan (Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru) i Mr Williams.

1.6 O 1 Ionawr 2002, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ei Arolygon o'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Er mwyn rheoli'r trefniant hwn, ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiynau a'u hadrannau nawdd priodol. Noddwyr presennol y Comisiwn Ffiniau i Gymru yw Swyddfa'r Cabinet.

**Dyletswyddau Statudol**

1.7 Prif ddyletswyddau'r Comisiwn yw:

**Ardaloedd Llywodraeth Leol**

i) Parhau i arolygu'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i Lywodraeth Cymru sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) Ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol;

iii) Ystyried adroddiadau a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon ardaloedd cymunedol a gynhaliwyd ganddynt a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

**Trefniadau Etholiadol**

iv) O dan ddarpariaethau'r adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995, roedd yn ofynnol i'r Comisiwn:

a) Gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hynny gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) Llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny; a

v) Heb fod yn llai na deg nac yn fwy na phymtheg mlynedd ar ôl cwblhau'r arolwg cychwynnol ac wedi hynny, ar gyfnodau tebyg, cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru.

**Cyfarwyddiadau**

vi) Caiff Llywodraeth Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg o Gymru gyfan, neu o unrhyw un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru.

**Gweithdrefn Arolygon**

1.8 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn pennu'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob arolwg. Camau sylfaenol arolwg yw:

i) Cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;

ii) Cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) Chyhoeddi cynigion terfynol lle y mae'n rhaid anfon unrhyw sylwadau pellach ar ôl hyn at Lywodraeth Cymru.

## 2 AMCANION

2.1 Corff statudol a noddir gan Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaethau Llywodraeth Cymru yw'r Comisiwn. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer y Comisiwn am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'n rhaid i'r Comisiwn hefyd ddilyn y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau statudol fel y'u hamlinellir mewn deddfwriaeth. Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw gwneud argymhellion i Weinidog priodol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i ffiniau llywodraeth leol a threfniadau etholiadol llywodraeth leol sydd er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

2.2 Mae'r Comisiwn yn destun Arolygon Polisi cyfnodol sy'n darparu canllawiau strategol a pholisi tymor canolig ar gyfer cynlluniau blynyddol y Comisiwn. Cynhaliwyd yr Arolwg Polisi diwethaf o'r Comisiwn gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2008. Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai Arolwg Annibynnol o'r Comisiwn (Adolygiad Mathias) yn cael ei gynnal. Gwnaeth Adolygiad Mathias nifer o argymhellion i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn wedi gwneud nifer o welliannau i'w weithrediad er mwyn bodloni argymhellion Mathias. Mae llawer o ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar hyn o bryd yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Mathias.

**Targedau**

2.3 Mae'r cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn gynnal arolygon ardal yn cynnwys terfynau amser penodedig, a bennir ar ôl ystyried cymhlethdod pob arolwg.

2.4 Caiff y gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth gynnal arolwg eu diffinio yn ôl statud, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu ac ymgynghori'n eang ac ystyried sylwadau cyn gwneud unrhyw gynigion terfynol i Lywodraeth Cymru.

2.5 Nid oes unrhyw gyfnodau amser statudol ar gyfer yr ymgynghoriad na chamau eraill y gweithdrefnau, y cânt eu gweithredu yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen i ddarparu digon o amser i awdurdodau lleol a phobl eraill sydd â diddordeb gyflwyno eu safbwyntiau. Gosodir targedau o fewn cyfnod arolwg ar gyfer y camau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, cynhyrchu adroddiadau drafft a therfynol a'r amser sydd ei angen i asesu'r materion dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried amgylchiadau penodol weithiau ac, oni bai bod terfynau amser penodedig yn bodoli, mae'n hyblyg o ran cadw at dargedau.

2.6 Mae Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn darparu ar gyfer rhaglen deng mlynedd o arolygon etholiadol yn hytrach na'r trefniant presennol, lle y gosodir yr amserlen gan y Gweinidog mewn cyfarwyddyd i'r Comisiwn. Bydd hyn yn rhoi targedau tymor hir eglur i'r Comisiwn a Rhanddeiliaid ar gyfer yr arolygon hyn.

# 3. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2012-13

**Cyfarfodydd**

3.1 Mae gan y Comisiwn raglen o gyfarfodydd misol. Cynhaliwyd un ar ddeg cyfarfod o'r Comisiwn a phedwar cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2012-13.

**Arolygon o Brif Ardaloedd**

3.2 Ni ymgymerodd y Comisiwn ag unrhyw arolygon o ffiniau rhwng prif awdurdodau yn ystod y flwyddyn.

**Arolygon Cymunedol**

3.3 Cwblhaodd y Comisiwn arolwg o'r ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Torfaen a chyhoeddodd ei Gynigion Terfynol ym mis Ionawr 2013.

**Arolygon o Drefniadau Etholiadol**

3.4 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Terfynol ar gyfer arolwg pellach o Sir Ynys Môn ym mis Mai 2012.

3.5 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Terfynol ar gyfer yr arolwg o Sir Gwynedd ym mis Mehefin 2012.

3.6 Cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin ym mis Ionawr 2013.

3.7 Cychwynnodd y Comisiwn arolwg etholiadol o Sir Benfro ym mis Hydref 2012.

3.8 Cafodd yr arolwg etholiadol o Fwrdeistref Sirol Torfaen, a gychwynnwyd yn flaenorol, ei ohirio ym mis Hydref tra'n aros am gwblhau arolwg cymunedol (gweler 3.3. uchod). Bwriedir ailgychwyn yr arolwg etholiadol ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud yn newid y ffiniau cymunedol.

3.9 Ar ôl derbyn cyfarwyddyd gan y Gweinidog, cychwynnodd y Comisiwn arolwg pellach o drefniadau etholiadol Sir Ddinbych (wedi'i gyfyngu i'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal Prestatyn) ym mis Chwefror 2013. Rhoddodd y Gweinidog gyfarwyddyd i'r Comisiwn gwblhau'r arolwg hwn erbyn 1 Awst 2013.

**Gweithdrefnau Arolygu Etholiadol**

3.10 Mewn ymateb i argymhellion Mathias, adolygodd y Comisiwn ei bolisi ac ymarfer o ran arolygon etholiadol a chyhoeddodd ei fersiwn gyntaf o'i ddogfen Polisi ac Ymarfer o ran arolygon etholiadol ym mis Mawrth 2012. Mae'r Comisiwn wedi parhau i gryfhau ei gysylltiadau â rhanddeiliaid ac wedi adolygu a gwella ei strategaeth gyfathrebu.

3.11 Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2012, cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad ar fethodoleg briodol ar gyfer asesu nifer y cynghorwyr ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, cynhaliwyd mwy o waith ar y cyd ag Uned Ddata Cymru i benderfynu ar fethodoleg gadarnach. Dechreuodd ymgynghoriad arall ar 27 Mawrth 2013 gyda dyddiad cau o 19 Mehefin 2013.

3.12 Anfonwyd canlyniadau arolwg y Comisiwn o arolygon etholiadol, gan gynnwys amserlen, at y Gweinidog ar 30 Mawrth 2011. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r holl brif gynghorau hefyd. Ystyriwyd amserlen yr arolygon ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn ac fe'i diweddarwyd lle bo'r angen. Rhoddwyd gwybodaeth am gynnydd yr arolwg i Lywodraeth Cymru a'r prif gynghorau dan sylw.

3.13 Cafodd y gweithdrefnau rheoli ansawdd yn y Comisiwn (o ran arolygon etholiadol ac arolygon eraill) eu gwella yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd adolygiad arall o'r gweithdrefnau yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd mesurau ychwanegol. Ym mis Chwefror 2013, cyflwynwyd swydd Rheolwr Arolygon a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y rheolau'n cael eu monitro a'u cymhwyso'n gyson.

**Llywodraethu Corfforaethol**

3.14 Yn 2011, mabwysiadodd y Comisiwn yr arfer o benodi aelod annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio. Penodwyd aelod annibynnol dros dro tan ddiwedd mis Awst 2012. Yna penododd y Comisiwn Mrs Julie James yn aelod annibynnol ar 1 Medi 2012 am gyfnod o dair blynedd.

3.15 Yn dilyn archwiliad Llywodraeth Cymru o amgylchedd rheoli'r Comisiwn a'r adroddiad a'r argymhellion dilynol, a gynhyrchwyd ym mis Hydref 2011, cynhaliwyd archwiliad dilynol ym mis Mai 2012. Cytunodd y Comisiwn ar gynllun gweithredu diwygiedig o ganlyniad i'r archwiliad.

3.16 Diweddarwyd Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn i gynnwys gwybodaeth briodol o God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus (Mehefin 2011).

3.17 Rhoddwyd system adrodd ariannol ar waith sy'n cynnwys:

- Adroddiadau misol ar y gyllideb wedi'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd;
- Prosesau diwedd y mis wedi'u cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd;
- Gwirio Cofrestrau Asedau Sefydlog; ac
- Adroddiad ar y gyllideb i bob cyfarfod o'r Comisiwn.

3.18 Adolygwyd y Strategaeth Risg a rhoddwyd Cofrestr Risg ddiwygiedig ar waith. Aseswyd Risgiau Gweithredol mewn cyfarfodydd Tîm a Rheolwyr a, lle bo'r angen, cawsant eu cynnwys yn y Risgiau Corfforaethol a ystyriwyd ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn. Bu'r Pwyllgor Archwilio yn asesu'r gweithdrefnau asesu risg yn rheolaidd. Roedd eitem ar Reoli Risg yn cael ei hystyried ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn. Rhoddodd yr archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn sicrwydd sylweddol ar gyfer trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Comisiwn.

3.19 Parhaodd y Comisiwn i gryfhau ei gysylltiadau â rhanddeiliaid a chafodd ei strategaeth gyfathrebu ei hadolygu a'i gwella. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, datblygwyd gwefan newydd ac fe'i rhoddwyd ar waith ym mis Ebrill 2012.

3.20 Ar ddiwedd mis Ionawr 2013, symudodd y Comisiwn i swyddfa newydd yn Nhŷ Hastings. Mae'r swyddfa newydd yn fwy economaidd ac yn darparu amgylchedd gweithio mwy effeithiol na'n hen swyddfa.

### Deddfwriaeth Newydd

3.21 Mae gan Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sydd ar ddod oblygiadau sylweddol i'r Comisiwn a sut mae'n gweithredu. Mae'r Comisiwn wedi cadw golwg fanwl ar gynnwys a hynt y Bil ac wedi cyfrannu at y broses trwy ymateb i'r Papur Gwyn ym mis Awst 2012, ymateb i'r Bil drafft ym mis Ionawr 2013 a rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 17 Ionawr 2013.

### Llythyr Cylch Gorchwyl

3.22 Amlinellodd llythyr cylch gorchwyl y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau dyddiedig 13 Mawrth 2013 rôl y Comisiwn o ran agenda strategol Llywodraeth Cymru a'r hyn y disgwylir i'r Comisiwn ei gyflawni er mwyn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei nodau. Gosododd y llythyr cylch gorchwyl yr amcanion penodol canlynol ar gyfer y Comisiwn:

#### Arolygon Etholiadol

Cwblhau'r arolygon etholiadol canlynol;

- Sir Ddinbych (Prestatyn) erbyn 1 Awst 2013;
- Torfaen erbyn diwedd mis Awst 2013;
- Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd mis Tachwedd 2013; a
- Sir Benfro erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

#### Maint Cynghorau

Cwblhau'r ymgynghoriad ar fethodoleg maint cynghorau a llunio a chyhoeddi methodoleg gytunedig.

#### Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Diweddaru polisi ac ymarfer y Comisiwn o ran arolygon etholiadol yn dilyn mabwysiadu methodoleg maint cynghorau a gweithredu Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

Ar ôl gweithredu Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru):

- ystyried adroddiadau arolygon cymunedol gan brif gynghorau a'u prosesu'n briodol;
- llunio amserlen ar gyfer rhaglen 10 mlynedd o arolygon etholiadol; a
- chychwyn y rhaglen o arolygon etholiadol.

Mae'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r amcanion yn y meysydd hyn yn ystod y deuddeg mis nesaf wedi'u cynnwys yn Adran 5, Gwaith y Comisiwn yn ystod 2013-14.

## 4. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC YMARFER

### Dogfen Fframwaith

4.1 Mae'r Ddogfen Fframwaith yn disgrifio'r berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ac mae'n mynnu bod Cynlluniau Gweithredol Blynyddol, Cynlluniau Corfforaethol ac Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru at ddibenion cynllunio, cyllidebu ac asesu perfformiad. Caiff cyfarfodydd cyswllt eu cynnal bob tri mis gydag is-adran nawdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyfarfod â'r Gweinidog unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd.

4.2 Mabwysiadwyd Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol a chyhoeddir Cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y Comisiynwyr ar wefan y Comisiwn (www.cflll-cymru.gov.uk). Ceir cod ymddygiad ar gyfer staff y Comisiwn hefyd.

4.3 Mae'r Comisiwn wedi penodi Pwyllgor Archwilio, a gadeirir gan aelod o'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.

4.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n cydsynio ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, mae'r Comisiwn yn rhoi cyhoeddusrwydd eang i'w fwriad o gynnal pob arolwg ac ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw, ac ymweld ag ef, i drafod yr arolwg a gwahodd ei sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar ei gynigion drafft a'i gynigion terfynol a darperir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gynghorau a'r cynghorau cymuned y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Mae gwefan y Comisiwn: www.cflll-cymru.gov.uk yn rhoi gwybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr arolygon a chyfle i weld adroddiadau blaenorol.

4.5 Ar gyfer pob arolwg, penodir un o'r Comisiynwyr yn Gomisiynydd Arweiniol ar gyfer yr arolwg hwnnw. Rôl y Comisiynydd Arweiniol yw annog cynghorau i ymgysylltu â'r broses ar lefel uchel trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ag uwch aelodau a staff lle y bo'n briodol trwy gydol y broses arolygu.

### Cyllideb ac Archwiliad

4.6 Y gwariant net am y flwyddyn oedd £489,932 (2011-12; £562,659) ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £519,735 (2011-12; £576,492) ac mae hwn wedi'i gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Gan y darperir Cymorth Grant ar sail arian parod ac na ellir ei dynnu cyn bo angen, ac y paratoir y cyfrifon ar sail croniadau, gall hyn arwain at sefyllfa cronfeydd negyddol net. Mae hyn wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

4.6 Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Archwilwyr mewnol y Comisiwn oedd Deloitte LLP. Mae Archwilydd Cyffredinol

Cymru wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn ac nid oedd yr adroddiad dilynol yn cynnwys cafeat nac amodau.

**Cynllun Iaith Gymraeg**

4.7 Enwebwyd un o'r Comisiynwyr yn Hyrwyddwr y Gymraeg ar ran y Comisiwn. Mae ganddo/ganddi gylch gwaith agored i weithio gyda staff y Comisiwn i gynyddu a gwella ein defnydd o'r Gymraeg. Mae gan y Comisiwn Gynllun Iaith Gymraeg (a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2011) sy'n amlinellu ymrwymiad y Comisiwn i'r egwyddor, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cynnwys mesurau manwl i gefnogi'r egwyddor a darperir copi o'r adroddiad llawn ar gais neu gellir ei weld ar wefan y Comisiwn.

**Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth**

4.8 Mae cyrsiau hyfforddi hanfodol y mae'n ofynnol i aelodau staff eu mynychu wedi parhau eleni ac yn cynnwys: Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol. Roedd aelodau staff sy'n gyfrifol am ddiweddaru gwefan y Comisiwn wedi dilyn cwrs rheoli cynnwys gwefan. Yn ogystal, mae'r Comisiwn wedi cefnogi hyfforddiant datblygiad staff ac mae'r cyrsiau a ddilynwyd yn cynnwys '7 o Arferion Pobl Hynod Effeithiol' ac Ysgrifennu Adroddiadau. Mae tri aelod o staff wedi dechrau Rhaglen Arweinyddiaeth (Cultivar) Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd cyflwyniad i dechnegau LEAN i bob aelod o staff a dilynwyd hynny gan weithdy i gymhwyso'r technegau a ddysgwyd yn y broses arolygon. Nodwyd nifer o gamau gweithredu ac mae'r rhain naill ai wedi'u rhoi ar waith neu bwriedir gwneud hynny yn ystod y flwyddyn i ddod. Mynychodd pob aelod o staff gwrs Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau Lefel 1 ac mae trefniadau wedi'u gwneud iddynt ddilyn cyrsiau Lefel 2 a Lefel 3 yn ystod y flwyddyn nesaf. Derbyniodd Swyddog Arolygon newydd hyfforddiant penodol i'r swydd megis Cyflwyniad i MapInfo Professional, a threfnwyd a chefnogwyd hyfforddiant mewnol. Rhoddwyd hyfforddiant yn y Gymraeg ar sail anffurfiol i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, i'w helpu i ynganu enwau lleoedd Cymraeg yn well.

4.9 Mae'r Comisiwn yn rhan o gynghrair AtoS Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o ofynion TG y Comisiwn, o ran caledwedd a meddalwedd.

**Gweithdrefn Gwyno**

4.10 Mae gan y Comisiwn Weithdrefn Gwyno a gellir gwneud cwynion (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) trwy gysylltu â'r Comisiwn. Gellir cael gwybodaeth am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn nogfen Gweithdrefn Gwyno'r Comisiwn sydd ar wefan y Comisiwn (www.cflll-cymru.gov.uk) neu gellir cael copi o'r ddogfen gan y Comisiwn yn y cyfeiriad isod. Nid yw'r Comisiwn yn dod o fewn cylch gorchwyl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Fel rhan o'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sydd ar ddod, awgrymwyd gennym fod y ddeddfwriaeth yn cael ei newid i ganiatáu hyn.

**Polisi Cyflogeion**

4.11 Ar ddiwedd mis Mawrth 2013, roedd staff y Comisiwn yn cynnwys yr Ysgrifennydd, Dirprwy Ysgrifennydd, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Arolygon, pedwar Swyddog Arolygon (1 swydd heb ei llenwi), Cynorthwy-ydd Arolygon a Chynorthwy-ydd Swyddfa. Mae'r Comisiwn yn cynnal craidd o staff a gyflogir yn uniongyrchol y mae eu bandiau cyflog a'u telerau ac amodau gwasanaeth yn gyfatebol i staff Llywodraeth Cymru o'r un graddau.

Pennir gofynion staffio dros y lefel graidd gan gylchoedd arolygu awdurdodau lleol a seneddol, a'u llwythi gwaith, a chânt eu bodloni drwy gyflogi staff ar secondiad mewnol o adrannau llywodraethol eraill ar gyfer tymor sefydlog o naill ai dwy flynedd neu dair blynedd. Mae staff sydd ar secondiad o adrannau llywodraethol eraill yn parhau i fod ar yr un graddfeydd cyflog ac i fod â'r un telerau ac amodau â'u rhiant-adran tra eu bod wedi'u cyflogi gan y Comisiwn.

Yn sgil y newidiadau a allai gael eu gwneud i weithrediad gwaith arolygu'r Comisiwn o ganlyniad i newidiadau i'r ddeddfwriaeth (gweler 5.14 isod), mae'n debygol y bydd newid i raglen dreigl o waith arolygu. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn gyflogi'r rhan fwyaf o'i staff, os nad pob un, yn barhaol yn hytrach na bod â staff ar secondiad i ymdopi â gwaith yn ystod cyfnodau brig.

Mae gan y Comisiwn ystod eang o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, a'u nod yw sicrhau y caiff staff eu cadw a'u symbylu.

## 5. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2013-14

### Arolygon o Drefniadau Etholiadol

5.1 Disgwylir i gynigion drafft mewn perthynas â'r arolwg pellach o Sir Ddinbych (Prestatyn) gael eu cyhoeddi yn gynnar ym mis Mai 2013, a chaiff cynigion terfynol eu cyhoeddi erbyn 1 Awst 2013.

5.2 Disgwylir i gynigion drafft mewn perthynas â'r arolwg o Sir Benfro gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2013, a chaiff cynigion terfynol eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

5.3 Disgwylir i'r arolwg etholiadol o Dorfaen ailgychwyn yn dilyn Gorchymyn Llywodraeth Cymru i weithredu'r arolwg cymunedol diweddar. Disgwylir i gynigion terfynol mewn perthynas â'r arolwg o Dorfaen gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Awst 2013.

5.4 Disgwylir i gynigion terfynol mewn perthynas â'r arolwg o Sir Gaerfyrddin gael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd 2013.

5.5 Yn dilyn gweithredu Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), disgwylir i waith ddechrau ar y cyntaf o'r arolygon etholiadol ym mis Ionawr 2014.

### Arolygon Cymunedol

5.6 Mae sawl un o'r prif Gynghorau wedi cychwyn neu wedi mynegi eu bod ar fin cychwyn arolygon cymunedol yn eu hardaloedd. Bydd y Comisiwn yn rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad a allai fod ei angen ar Gynghorau.

### Polisi Arolygon Etholiadol

5.7 Bydd yr ymgynghoriad ar y fethodoleg ar gyfer penderfynu ar faint cynghorau yn dod i ben ar 19 Mehefin 2013. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi ei bolisi mewn perthynas â maint cynghorau erbyn diwedd mis Medi 2013.

### Llywodraethu Corfforaethol

5.8 Bob tri mis, bydd yr Ysgrifennydd yn asesu prosesau'r Comisiwn ar gyfer llunio'r Datganiad Llywodraethu.

5.9 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'n ofynnol llunio Datganiad Llywodraethu a ategir gan Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio.

5.10 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod ym mis Mai, mis Gorffennaf a mis Tachwedd yn 2013, ac ym mis Chwefror yn 2014.

5.11 Bydd risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn.

5.12 Bwriedir adolygu system rheoli cofnodion y Comisiwn a rhoi system effeithiol ar waith erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

5.13 Bydd Cynllun Corfforaethol sy'n disodli'r ddogfen flaenorol 'Ein Strategaeth 2009-12' yn cynnwys newidiadau sy'n codi o Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ac fe'i cyhoeddir erbyn diwedd mis Rhagfyr 2013.

**Deddfwriaeth**

5.14 Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn cael effaith sylweddol ar waith y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn asesu effaith darpariaethau'r Bil ac yn gwneud newidiadau priodol i'w weithrediadau i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

**Cyfathrebu**

5.15 Bydd strategaeth gyfathrebu'r Comisiwn yn cael ei datblygu ymhellach i gynnwys polisi cytunedig ar gyfryngau cymdeithasol ac i gynnwys newidiadau i'r ddeddfwriaeth.

**Yr Ysgrifennydd**
**Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**
**Tŷ Hastings**
**Llys Ffitsalan**
**CAERDYDD**
**CF24 0BL**

**Ffôn:** **029 20464819**
**Ffacs:** **029 20464823**
**E-bost:** **cflll-cymru@cymru.gsi.gov.uk**
**Gwefan:** **www.cflll.cymru.gov.uk**

## 6. DATGANIADAU ARIANNOL CRYNO

6.1 Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn rhoi crynodeb o gyfrifon Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth lawn o'r canlyniadau a sefyllfa ariannol y Comisiwn. I gael mwy o wybodaeth, dylid edrych ar y cyfrifon blynyddol llawn ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny. Mae copi o'r cyfrifon archwiliedig, sy'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan y gyfraith ac o dan ganllawiau arferion gorau, ar gael, yn rhad ac am ddim, oddi wrth y Rheolwr Cyllid, Tŷ Hastings, Llys Ffitsalan, Caerdydd, CF24 0BL.

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno sydd wedi eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar ddatganiadau ariannol statudol fel y nodir isod ar dudalennau 15 i 20.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol statudol, adroddiad yr Ysgrifennydd a'r Swyddog Cyfrifyddu a'r adroddiad tâl. Rwyf wedi darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

### Sail fy marn

Cynheliais fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

### Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol, adroddiad yr Ysgrifennydd a'r Swyddog Cyfrifyddu ac adroddiad tâl Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 ac rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod amdanynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiadau y llofnodais fy adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, sef 8 Awst 2013, a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
8 Awst 2013

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd

# COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

## DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

| | Nodiadau | 2013<br>£ | 2012<br>£ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT** | | | |
| Costau staff | 5 | **399,825** | 446,614 |
| Dibrisiant | | **2,523** | 3,356 |
| Gwariant arall | | **245,177** | 245,234 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **647,525** | 695,204 |
| **INCWM** | | | |
| Incwm arall | | **157,596** | 132,544 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **157,596** | 132,544 |
| **Gwariant Net** | | **(489,929)** | (562,660) |
| Llog net (taladwy) / derbyniadwy | | **(3)** | 1 |
| **Gwariant Net ar ôl llog** | | **(489,932)** | (562,659) |
| **GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL** | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013** | | **(489,932)** | (562,659) |

Mae'r holl weithgareddau wedi eu dosbarthu yn rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 20 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

## DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL
**ar 31 Mawrth 2013**

| | Nodiadau | **31 Mawrth 2013** | 31 Mawrth 2012 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| **ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | | **4,210** | 1,793 |
| **Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **4,210** | 1,793 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | | **5,387** | 3,090 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | **50,105** | 8,480 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **55,492** | 11,570 |
| **Cyfanswm asedau** | | **59,702** | 13,363 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | | **(60,727)** | (44,191) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(60,727)** | (44,191) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(1,025)** | (30,828) |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | **(1,025)** | (30,828) |
| | | **(1,025)** | (30,828) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 20 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Ian Williams**
Swyddog Cyfrifyddu
19 Gorffennaf 2013

# COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

## DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN

**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

| | Nodiadau | 2013 | 2012 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl llog | | **(489,932)** | (562,659) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Lleihad / (Cynnydd) mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | | **(2,297)** | (1,420) |
| Dibrisiant | | **2,523** | 3,356 |
| Cynnydd / (Lleihad) mewn taliadau masnach | | **16,536** | (12,164) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(473,170)** | (572,887) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | **(4,940)** | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(4,940)** | - |
| **Llifoedd arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grantiau gan riant-adrannau | | **519,735** | 576,492 |
| **Cyllid net** | | | |
| (Lleihad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | **41,625** | 3,605 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | **8,480** | 4,875 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | **50,105** | 8,480 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 20 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

### DATGANIAD O NEWIDIADAU YN ECWITI TRETHDALWYR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

| | Nodiadau | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol* £ |
|---|---|---|
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2011** | | (44,661) |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu | | - |
| **Gweddill a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2011** | | (44,661) |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2011-12** | | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 11 | 576,492 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (562,659) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2012** | | (30,828) |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2012-13** | | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 11 | 519,735 |
| Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (489,932) |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2013** | | (1,025) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 i 20 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

* ni roddir colofn gyfanswm oherwydd dyma'r unig gronfa wrth gefn sydd gan y Comisiwn.

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2012-13 (FReM yn seiliedig ar IFRS) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 2. Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

## 3. Canlyniadau Ariannol

Cyfanswm y gwariant net am y flwyddyn oedd £489,932 (2011-12; £562,659) ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y Cymorth Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £519,735 (2011-12; £576,492) ac mae hwn wedi'i gredydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

Gan y darperir Cymorth Grant ar sail arian parod ac na ellir ei dynnu cyn bo angen, ac y paratoir y cyfrifon ar sail croniadau, gall hyn arwain at sefyllfa cronfeydd negyddol net. Mae hyn wedi digwydd dros y pedair blynedd diwethaf.

## 4. Busnes Gweithredol

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol. I'r graddau yr wyf yn ymwybodol, bydd y rhwymedigaethau net cyfredol yn cael eu hariannu gan adnoddau y mae'r Senedd yn pleidleisio arnynt (Cymorth Grant) yn y dyfodol.

## 5. NIFEROEDD STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG

| | 2013 Staff a gyflogir yn barhaol | 2013 Secondiadau Mewnol | 2013 Staff ar Gontract | 2013 Aelodau'r Comisiwn | 2013 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| **Taliadau a chyflogau** | **164,208** | **127,536** | **7,037** | **22,167** | **320,948** |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | **12,464** | **9,498** | **-** | **829** | **22,791** |
| **Costau pensiwn** | **31,434** | **24,321** | **-** | **-** | **55,755** |
| **Croniad tâl gwyliau** | **199** | **132** | **-** | **-** | **331** |
| **Cyfanswm Costau Net** | **208,305** | **161,487** | **7,037** | **22,996** | **399,825** |

**Cyfartaledd nifer yr unigolion a gyflogir**
**Cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn oedd:**

| Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|---|
| **6** | **4** | **1** | **4** | **15** |

Cymariaethau:

| | 2012 Staff a gyflogir yn barhaol | 2012 Secondiadau Mewnol | 2012 Staff ar Gontract | 2012 Aelodau'r Comisiwn | 2012 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Taliadau a chyflogau | 211,764 | 120,704 | 2,765 | 32,074 | 367,307 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 14,988 | 8,317 | - | 2,042 | 25,347 |
| Costau pensiwn | 37,527 | 19,426 | - | - | 56,953 |
| Croniad tâl gwyliau | (1,633) | (1,360) | - | - | (2,993) |
| Cyfanswm Costau Net | 262,646 | 147,087 | 2,765 | 34,116 | 446,614 |

Cyfartaledd nifer yr unigolion a gyflogir
Cyfartaledd nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn oedd:

| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | 5 | 1 | 3 | 15 |

Cyflog Cadeirydd y Comisiwn oedd £6,962 (2011-12: £2,689). Cyflog Cadeirydd Dros Dro y Comisiwn oedd £2,678 (2011-12: £15,748). Cyflog y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelod oedd £5,090 a £5,445 yn ôl eu trefn. Roedd cyflog yr Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Dros Dro yn llai na £5,000 yr un.

Mae'r costau uchod yn cynnwys £81,381 (2011-12; £118,143) mewn perthynas ag adnoddau staff a wariwyd ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r gostyngiad yng nghostau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer 2012-13 wedi digwydd o ganlyniad i'r gostyngiad mewn gwaith ar gyfer Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol a ddaeth i ben yn dilyn Gorchymyn (Cychwyn Rhif 3) 2013 Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013.

## 7. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Awdurdodwyd y cyfrifon hyn i'w cyhoeddi ar 19 Gorffennaf 2013 gan y Swyddog Cyfrifyddu. Ar ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn, nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w datgelu.

**Ian Williams**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**19 Gorffennaf 2013**